Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 3 - y Senedd**

Dyddiad:
**Dydd Mawrth, 27 Tachwedd 2012**

Amser:
**09:00**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Policy: Tom Jackson**
Clerc y Pwyllgor
029 2089 8597
Publicaccounts.comm@Wales.gov.uk

## Agenda

### 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon (09:00-09:05)

### 2. Cyllid iechyd - Tystiolaeth gan Lywodraeth Cymru (09:05-10:10)

(Tudalennau 1 - 19)
PAC(4) 27-12 - Papur 1 - Lywodraeth Cymru

David Sissling, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant
Kevin Flynn, Cyfarwyddwyr Cyflawni / Dirprwy Brif Weithredwr, GIG Cymru
Alan Brace, Cyfarwyddwr Cyllid a Chaffael, Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan

### 3. Cyllid iechyd - Tystiolaeth gan Gonffederasiwn y GIG 10:10-10:50

Helen Birtwhistle, Cyfarwyddwr, Conffederasiwn GIG Cymru

### 4. Papurau i'w nodi (Tudalennau 20 - 42)

PAC(4) 27-12 - Papur 2 - Y wybodaeth ddiweddaraf gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyllid iechyd

Cofnodion y cyfarfod blaenorol

### 5. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

Eitem 6.

## 6. Trafod y dystiolaeth ar gyllid iechyd (10:50 - 11:00)

**Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus**
**PAC(4) 27-12 – Papur 1**

**Papur tystiolaeth gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol, Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus mewn ymateb i Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar Gyllid Iechyd (Gorffennaf 2012)**

**Cyflwyniad**

Croesawodd Llywodraeth Cymru adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar Gyllid Iechyd a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf. Roedd yr adroddiad yn cydnabod y camau rydym yn eu cymryd i sicrhau bod cyllid sefydliadau'r GIG yn fwy cynaliadwy. Roedd hyn yn cynnwys darparu arian cylchol yn 2011-12, a chyflwyno system froceriaeth fwy hyblyg sy'n diddymu'r trefniadau achub blaenorol a roddwyd ar waith ar ddiwedd y flwyddyn. Roedd yr adroddiad yn cydnabod yr heriau sy'n wynebu'r GIG yn y dyfodol, ond yn cefnogi honiad Llywodraeth Cymru fod angen newid gwasanaethau er mwyn sicrhau dyfodol hirdymor GIG Cymru.

Mae'r papur yn rhoi'r canlynol i'r Pwyllgor: gwybodaeth am yr heriau sy'n wynebu'r GIG nawr a'r rhai a fydd yn ei wynebu yn y dyfodol; y camau rydym yn eu cymryd yn y flwyddyn ariannol gyfredol i fynd i'r afael â'r heriau a wynebir nawr; yr adolygiad o system gyllid y GIG i gefnogi gofynion strategol GIG Cymru; ac ymateb dros dro Llywodraeth Cymru i'r argymhellion a wnaed yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, a dderbyniwyd mewn egwyddor.

**Blwyddyn Ariannol 2011-12**

Roedd 2011/12 yn flwyddyn bwysig i GIG Cymru. Dangosodd y GIG sut y gallai fynd i'r afael â'r heriau strategol a gweithredol sylweddol drwy ddarparu gwell gwasanaethau a pherfformiad mewn amgylchedd ariannol heriol iawn. Mae'r heriau hyn yn fwyfwy amlwg wrth i ni symud ymlaen ac mae ymateb Llywodraeth Cymru iddynt yn cynnwys:

- lansio *Law yn Llaw at Iechyd* ym mis Tachwedd 2011;
- darparu arian cylchol yn lle arian anghylchol a sefydlogi'r sefyllfa ariannol;

- nodi'n glir y gofyniad i sefydliadau'r GIG fynd ati i roi prosesau newid gwasanaethau ar waith er mwyn sicrhau eu bod yn gynaliadwy;
- gosod pwyslais clir ar wella ansawdd a diogelwch fel nodau diffiniol a sylfaenol y GIG.

Fel y nodwyd yn fy adroddiad blynyddol ym mis Gorffennaf, mae'r GIG wedi ymateb yn dda i'r heriau a wynebwyd ganddo yn 2011/12, gan ddangos gwelliant cyffredinol ar draws ystod eang o wasanaethau. Ymhlith y rhain mae: gwelliannau sylweddol mewn gwasanaethau strôc; gwelliannau mewn ansawdd drwy ostwng lefelau heintiau, briwiau pwyso a chyfraddau marwoldeb; gwelliannau mynediad, yn enwedig o ran gwasanaethau orthopedig a gofal heb ei drefnu. cyflwyno modelau gofal newydd gan ddefnyddio'r buddiannau sy'n deillio o'n system integredig i sicrhau gostyngiad sylweddol mewn derbyniadau a hyd yr arhosiad ar gyfer cyflyrau cronig; a'r broses o fantoli'r gyllideb. Ni ddylid tanamcangyfrif graddau'r cyflawniad ariannol yn 2011-12. Llwyddodd y GIG i sicrhau arbedion o tua £285m y llynedd tra'n gwella ansawdd a phrofiad cleifion ar yr un pryd.  Mae hyn yn cymharu'n ffafriol iawn â pherfformiad systemau Iechyd eraill.

Felly, roedd y GIG yn meddu ar rywfaint o fomentwm cadarnhaol ar ddechrau 2012/13. Roedd gwelliant mewn ansawdd a pherfformiad a chynnydd o ran cynllunio newidiadau i wasanaethau yn y tymor hwy.

**Blwyddyn Ariannol 2012-13**

Roedd yr adroddiad yn cydnabod y byddai'r GIG yn wynebu heriau sylweddol pellach yn 2012/13.  Er gwaethaf yr arian cylchol ychwanegol a ddyrannwyd yn 2011-12, roedd sefydliadau'r GIG yn wynebu pwysau newydd o ran costau a, gyda chynnydd parhaus mewn galw, roedd hyn yn golygu bod angen cyflawni arbedion effeithlonrwydd pellach o tua £317 miliwn er mwyn mantoli'r gyllideb. Mae hon yn her sylweddol, yn enwedig o ystyried bod tua £600m o arbedion wedi'u cyflawni yn ystod y ddwy flynedd diwethaf. Ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, roedd Byrddau Iechyd wedi cyflwyno cynlluniau ariannol i gyflawni'r arbedion effeithlonrwydd hyn, ond roedd yn amlwg bod lefel uchel o risg yn gysylltiedig â hyn.  Yn sgil gwaith pellach a wnaed gan y Byrddau Iechyd, daeth

yn amlwg na fyddai rhai o'r cynlluniau arbedion yn cyflawni lefel yr arbedion yr oedd ei hangen o fewn yr amserlenni angenrheidiol ac felly mae BILlau wedi gorfod datblygu cynlluniau newydd yn eu lle.

Gwelwyd patrwm o ddiffygion misol ar ddechrau'r flwyddyn ac mae'n dod yn fwyfwy amlwg bod y GIG yn ei chael hi'n anodd cynnal y lefelau perfformiad sy'n ofynnol o fewn eu dyraniadau cyfredol. Ar ddiwedd mis Medi, nododd sefydliadau'r GIG ddiffyg cronnol o £69.1m a diwygiwyd eu halldro rhagamcanol ar ddiwedd y flwyddyn i ddiffyg o £69.6m.

Mae'r sefyllfa ariannol a nodwyd gan sefydliadau'r GIG wedi bod yn destun dadansoddiad ac adolygiad manwl gan fy Adran i a sefydliadau unigol. Mae'n bwysig nodi, yn hanesyddol, bod y GIG wedi gorwario ar ddechrau'r flwyddyn, gyda mentrau arbedion yn cael mwy o effaith yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Ceir materion proffilio hefyd a all, weithiau, wyrdroi'r sefyllfa o ran y flwyddyn hyd yn hyn.

Ceir tystiolaeth glir bod Byrddau Iechyd wedi bod o dan bwysau sylweddol, yn arbennig o ran y galw ar eu systemau gofal heb ei drefnu, lle ymddengys na fu fawr o ostyngiad o'r lefelau uchaf a brofwyd yn ystod y gaeaf.

O ganlyniad i'r straen ar berfformiad ariannol a pherfformiad anariannol, gofynnodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i mi gynnal adolygiad canol blwyddyn o'r pwysau sy'n wynebu GIG Cymru yn y flwyddyn ariannol gyfredol.

**Adolygiad Canol Blwyddyn - Sylwadau Cychwynnol**

Yn ystod mis Hydref, fel rhan o'm hadolygiad, bu i mi a'm Cyfarwyddwr Cyflawni a Chyllid, gyfarfod yn unigol â phob Bwrdd ac Ymddiriedolaeth i drafod eu gwasanaeth, eu sefyllfa ariannol a'u rhagolygon yn fanwl. Nododd y sefydliadau nifer o resymau am y pwysau yr oeddent yn eu hwynebu. Ymhlith y rhain roedd:

- Anhawster i sicrhau capasiti digonol i ddelio â'r pwysau ar wasanaethau gofal heb ei drefnu, yn enwedig yn sgil y cynnydd yn y boblogaeth hŷn.

- Methiant i gyflawni'r lleihad angenrheidiol mewn costau 'premiwm' ar gyfer gwaith asiantaeth a gwaith cronfa. Nid yw'n debygol y gwelir lleihad sylweddol yn y costau hyn cyn y gweithredir y newidiadau angenrheidiol i wasanaethau.
- Gwariant cynyddol ar gleifion a chleientiaid gofal iechyd parhaus.
- Mewn rhai achosion, mae Byrddau Iechyd wedi cydnabod bod angen iddynt atgyfnerthu agweddau ar eu gwaith cynllunio a rheolaeth gyllidebol mewnol.

Mae fy Adran wedi gwneud gwaith pellach i gadarnhau'r gofynion demograffig a ddisgrifir gan y GIG. Ynghyd â thwf parhaus yn y boblogaeth gyffredinol, dangosodd y dadansoddiad yn glir fod twf sylweddol yn lefel absoliwt a chymharol yr henoed, sy'n anochel yn gosod pwysau penodol ar wasanaethau gofal.

Yng Nghymru y gwelir y nifer fwyaf o bobl dros 85 mlwydd oed - patrwm a fydd yn parhau ac yn cynyddu yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod. Mae newidiadau demograffig yn arwain at newidiadau yn y galw ar y GIG. Un agwedd arbennig o arwyddocaol yw lefel yr ymweliadau a'r derbyniadau i Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys. Er i gynnydd cyffredinol o 3.5% gael ei weld yn nifer y derbyniadau i adrannau Damweiniau ac Achosion Brys yn 2011-12, gwelwyd cynnydd o 6.3% ar gyfer pobl 75-84 oed a chynnydd o 8.6% ar gyfer y rheini dros 85 oed. Y rhagolygon ar gyfer 2012-13 yw 7.7% ar gyfer pobl 75-84 oed a 9.7% ar gyfer y rheini dros 85 oed, o gymharu â chynnydd cyffredinol a ragwelir o 4%. Er gwaethaf y pwysau hyn, mae perfformiad mewn perthynas â tharged 4 awr Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys wedi parhau'n gymharol sefydlog. Mae hyn yn adlewyrchu gwaith sylweddol i symleiddio prosesau a chyflwyno modelau gofal newydd.

Yn ogystal â chynnydd yn y twf canrannol gydag oedran, mae cyfran y derbyniadau i Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys a ystyrir yn rhai o bwys yn cynyddu o 15% ar gyfer y boblogaeth o oedran gweithio i 37% i 53% ar gyfer y boblogaeth hŷn. Gwaethygir y sefyllfa gan y ffaith bod hyd yr arhosiad yn dueddol o fod yn hwy ar gyfer pobl hŷn. Mae hyn yn arwain at fwy o ddiwrnodau gwely ac, wrth gwrs, y galw am fwy o adnoddau cysylltiedig - staff, meddyginiaeth a defnyddiau traul. Adlewyrchir y twf hwn mewn gofal heb ei drefnu hefyd yn y pwysau a roddir ar y gwasanaeth ambiwlans. Mae galwadau categori A wedi cynyddu 21.7% ers 2010/11.

Mae hefyd yn bwysig nodi effaith y pwysau ariannol a wynebir gan Awdurdodau Lleol. Mae Byrddau Iechyd yn nodi'r effaith y mae hyn yn ei chael ar y ddarpariaeth gofal cymdeithasol - yn enwedig gofal cartref - mewn rhannau o Gymru. Mae'n fwy tebygol, er enghraifft, y ceir derbyniadau i ysbytai ac achosion o oedi cyn rhyddhau cleifion.

Felly, ceir mwy o alw yn gyffredinol gyda thueddiadau sy'n gysylltiedig â'r boblogaeth hŷn o bwys penodol. Mae Byrddau Iechyd yn cymryd camau i leddfu'r galw hwn - mae modelau gofal newydd yn osgoi derbyniadau ac yn lleihau hyd arosiadau. Fodd bynnag, mae gwaith dadansoddi yn nodi mai cynnydd sylweddol yn nifer yr ymweliadau a derbyniadau i ysbytai yw'r effaith 'net'. Rhoddir tystiolaeth bellach o'r effaith demograffig ar alw yn Atodiad 1 i'r papur hwn.

Mae'n bwysig pwysleisio'r pethau cadarnhaol sy'n cael eu cyflawni gan y GIG i wella effeithlonrwydd a chynhyrchiant. Mae'r modd y caiff adnoddau eu defnyddio yn gwella'n gyflym - mae mwy o ofal yn cael ei ddarparu y tu allan i ysbytai, mae hyd arosiadau yn lleihau ac mae mwy o ofal yn cael ei ddarparu heb fod angen i gleifion aros dros nos. Nodir rhai enghreifftiau o'r cynnydd hwn yn Atodiad 2.

Yn seiliedig ar y dystiolaeth o risgiau a gyflwynwyd yng nghynlluniau ariannol cychwynnol sefydliadau'r GIG, penderfynais ar ddechrau'r flwyddyn ariannol i sefydlu cronfa wrth gefn yng nghyllidebau canolog Llywodraeth Cymru ar gyfer rhaglenni iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Caiff y modd y defnyddir y gronfa wrth gefn ei ystyried yn sgil yr adolygiad..

**Ad-drefnu gwasanaethau a'r heriau ariannol**

Bydd y Pwyllgor yn ymwybodol bod y weledigaeth pum mlynedd ar gyfer y GIG yn cynnwys cynlluniau i ad-drefnu'r ffordd rydym yn darparu ein gwasanaethau. Yn ddiweddar, mae BILlau Betsi Cadwaladr a Hywel Dda wedi cynnal ymgynghoriad ar eu cynigion i lunio gwasanaethau yn eu hardaloedd yn y dyfodol. Maent wrthi'n ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriadau a byddant yn cyflwyno eu cynigion terfynol ar ddechrau'r flwyddyn nesaf. Dechreuodd BILlau De Cymru ar raglen ymgysylltu ar 26 Medi a bydd proses ymgynghori ffurfiol yn dilyn y flwyddyn nesaf.

Rhan hanfodol o'r broses lywodraethu yw sicrhau bod y newidiadau i wasanaethau yn cynnig gwasanaeth diogel y gellir ei weithredu o fewn dyraniadau cyllidebol dangosol yn y dyfodol. Nid yw cymhellion ariannol wrth wraidd y newidiadau i wasanaethau, ond bydd angen i gynaliadwyedd ariannol fod yn elfen allweddol o'r cynigion terfynol. Yn benodol, er bod ein cynlluniau ar gyfer gwariant cyfalaf yn fforddiadwy ac yn gyson â'n strategaethau gwasanaeth ar hyn o bryd, rwy'n ymwybodol o'r ffaith y gall fod angen eu hadolygu yn sgil y casgliadau o'r broses ad-drefnu.

**System Gyllid newydd ar gyfer GIG Cymru**

Yn *Law yn Llaw at Iechyd* gwnaethom ymrwymo i ddatblygu system gyllid newydd ar gyfer GIG Cymru i wella'r modd y caiff adnoddau ariannol eu cynllunio a'u defnyddio yn unol â blaenoriaethau clinigol. Gwnaethom hefyd ymrwymo i sicrhau bod yr ochr glinigol yn chwarae mwy o ran yn y broses o wneud penderfyniadau ariannol a chyllidebu. Mae gofal o safon uchel a defnyddio arian y GIG mewn modd effeithlon ac effeithiol yn mynd law yn llaw. Gall arferion gwael ac amrywiadau y gellir eu hosgoi o ran y gwasanaethau a ddarperir achosi niwed clinigol a gwastraff ariannol. Felly, bydd y system gyllid newydd ar gyfer GIG Cymru yn dod â blaenoriaethau clinigol ac ariannol yn agosach at ei gilydd ac yn datblygu gwybodaeth ariannol a fydd yn rhoi gwybodaeth a dealltwriaeth ar lefel strategol a gweithredol, mewn fformat sy'n ddefnyddiol i glinigwyr ac sy'n helpu i gefnogi a sbarduno newid clinigol

Bydd y gwaith o ddatblygu a gweithredu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig ar gyfer y GIG wrth wraidd y system newydd. Bydd y cynlluniau hyn yn dangos y nodweddion canlynol:

- Byddant yn canolbwyntio ar wella'r gwaith o gynllunio a defnyddio adnoddau ariannol yn unol â blaenoriaethau clinigol
- Byddant yn sicrhau bod yr ochr glinigol yn chwarae mwy o ran yn y broses o wneud penderfyniadau ariannol, drwy sicrhau bod mewnbwn clinigol i gynlluniau clinigol, gwasanaeth, gweithlu ac ariannol integredig.

- Byddant yn symud yr agenda ymlaen o'r cylch blynyddol cul traddodiadol i gefnogi newid mewn gwasanaethau a mesur gwelliant dros gyfnod hwy na blwyddyn
- Byddant yn fodd i Fyrddau Iechyd Lleol ganolbwyntio ar sicrhau bod y cynlluniau, y fframwaith a'r adnoddau yn addas at y diben ar gyfer Sefydliadau Integredig, i gwmpasu'r ystod o anghenion y boblogaeth ac iechyd, ar lefel sefydliadol a lleol, i gymorth rhaglenni a llwybrau hyd at berfformiad a llywodraethu integredig

Er mwyn cefnogi'r newid o gynlluniau blynyddol i gynlluniau tymor canolig, mae'r gwaith ar y system gyllid yn cynnwys ystyried opsiynau ar gyfer rhoi mwy o hyblygrwydd i Fyrddau Iechyd Lleol reoli eu cyllid ar draws blynyddoedd ariannol. Mae'r opsiynau hyn yn cynnwys hyblygrwydd y gellir ei gynnwys yn y fframwaith deddfwriaethol presennol ar gyfer GIG Cymru, yn ogystal ag ystyried p'un a oes angen cyflwyno newidiadau i system ariannol statudol y GIG er mwyn sicrhau bod mwy o hyblygrwydd yn y tymor hwy. Mae'r opsiynau hefyd yn ystyried y cyfyngiadau cyllidebol blynyddol sy'n gymwys i gyllideb iechyd Llywodraeth Cymru.

Caiff y gwaith ar y system newydd ei gwblhau a'i gyhoeddi'n fuan.

**Argymhellion Swyddfa Archwilio Cymru**

Cadarnhaodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru wedi derbyn pob un o'r chwe argymhelliad a wnaed yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru mewn egwyddor. Mae Atodiad 2 yn nodi ein hymateb dros dro i'r argymhellion hyn, a'r camau rydym yn eu cymryd ar hyn o bryd. Wrth gwrs, byddwn yn ymateb yn ffurfiol i unrhyw argymhellion a wneir gan y Pwyllgor ar ôl iddynt adolygu'r adroddiad hwn.

**Casgliad**

Roedd adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru yn cydnabod yr heriau sy'n wynebu GIG Cymru, ond roedd hefyd yn cydnabod y camau y mae Llywodraeth Cymru a'r GIG yn eu cymryd ar y cyd i ymateb i'r heriau hyn. Byddwn yn cyhoeddi Adolygiad Canol


Blwyddyn o'r pwysau ariannol a'r pwysau anariannol a wynebir gan y GIG yn fuan, a byddwn yn cyhoeddi'r gwaith sydd wedi'i wneud i ddatblygu system gyllid newydd. Bydd y naill a'r llall yn rhoi tystiolaeth bellach o'r camau sy'n cael eu cymryd i sicrhau bod GIG Cymru yn ariannol sefydlog.

**David Sissling**
**Cyfarwyddwr Cyffredinol, Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Phlant**
**Prif Weithredwr, GIG Cymru**

**Annex 1**

**Further Evidence on Demographic Impact on Demand for health services**

**Figure 1 – Number of 85+ per 1,000 population for each UK nation 2011 - 2021**




Sources:
Northern Ireland: 2010-based National Population Projections. Published 26 October 2011. http://www.nisra.gov.uk/demography/default.asp20.htm
England: Interim 2011-based subnational population projections, persons by single year of age. www.ons.gov.uk/ons/rel/snpp/sub-national-population-projections/Interim-2011-based/index.html . Released 28/09/2012
Wales: [019386]: Variants for the 2008-based local authority population projections for Wales, 2008 to 2033 (high projections) Statistical Directorate, Welsh Assembly Government
Scotland: Projected population of Scotland (2010-based), by sex and age group, 2010-2035, Table 6. http://www.gro-scotland.gov.uk/statistics/theme/population/projections/scotland/2010-based/tables.html

**Figure 2 – A&E attendances by age group 2010-11 to 2012-13**


| A&E Attendances | 2010/11 | 2011/12 | % Increase | 2012/13 ** | % Increase |
|---|---|---|---|---|---|

| | | | | Forecast | |
|---|---|---|---|---|---|
| 16-64 years | 477,107 | 487,658 | 2.21% | 499,508 | 2.43% |
| 65-74 years | 59,505 | 63,874 | 7.34% | 70,219 | 9.93% |
| 75-84 years | 58,215 | 61,875 | 6.29% | 66,617 | 7.66% |
| 85+ years | 38,023 | 41,307 | 8.64% | 45,329 | 9.74% |
| | **632,850** | **654,714** | **3.45%** | **681,324** | **4.06%** |

** The 2012/13 figures have been extrapolated from the actual position at September 2012.


Source: Welsh Government analysis of Patient Episode Database for Wales

**Figure 3 – Admissions and associated bed days following attendance at A&E by age group 2010-11 to 2011-12**




Source: Welsh Government analysis of Patient Episode Database for Wales

**Figure 4 – Category A calls 2006 to 2012**





Source: Welsh Government analysis of Welsh Ambulance Services NHS Trust data

## Annex 2


## Efficiency and Productivity Improvements : NHS Wales

### Figure 1 – Elective average length of stay for Orthopaedics 2010 to 2012





Source: Welsh Government analysis of Patient Episode Database for Wales

### Figure 2 – Elective average length of stay for General Surgery 2010 to 2012





Source: Welsh Government analysis of Patient Episode Database for Wales

**Figure 3 – Percentage of selected procedures treated as a daycase or in outpatients 2010 to 2012**




Source: Welsh Government analysis of Patient Episode Database for Wales

**Figure 4 – Bed days for emergency admissions for 3 selected chronic conditions**




Note :

The Chronic Conditions included in the analysis above are:

- COPD

- CHD
- Diabetes

Source: Welsh Government analysis of Patient Episode Database for Wales

**Annex 3**

**Provisional Welsh Government Response to WAO Recommendations**



| **WAO Recommendation** | **Welsh Government Provisional Response** |
|---|---|
| **R1**<br>Despite reporting significant savings, NHS bodies required additional funding in recent years. In particular, there are challenges in achieving cash-releasing workforce savings. In order to help address<br>the short-term funding gaps, **the Welsh Government should**:<br><br>**• further support NHS bodies in sharing good practice on making cost reductions, particularly efficiency savings that do not impact on quality or service levels; and**<br>**• provide challenge to NHS bodies as they develop their three-year plans to ensure they accelerate the cash-releasing savings from workforce planning while managing the risks to service levels and quality.** | Through membership of the NHS Directors of Finance Sustainability Sub Group, Welsh Government officials support the sharing of analysis and good practice based on the consistent analysis of the Savings Schedule from the Financial Monitoring Returns.<br><br>As part of the 2012/13 Financial Planning submissions Welsh Government officials have reviewed and challenged the original plans requiring NHS bodies to be more explicit in profiling their workforce wholetime savings. |
| **R2**<br>The longer-term sustainability of health services depends on radical reform of the way services are delivered and organised. The NHS faces a major challenge in funding that reform especially as there are large cuts to capital funding. **The Welsh Government should work with NHS bodies to identify the capital costs of reforming services, ensure these are properly prioritised within available resources and explore alternative options for funding or providing the necessary infrastructure**<br>**that supports the reform of NHS services.** | As set out in the Wales Infrastructure Investment Plan, the Welsh Government view is that public infrastructure investment should be primarily funded through direct government capital expenditure. However there is clearly a strong case for change to increase the resources available for investment –the imperative to boost jobs and growth, the significant reduction in the Welsh Government capital budget, the relatively low cost of borrowing and the benefits of bringing forward investment.<br><br>The Minister for Finance and Leader of the House's officials |

| | |
|---|---|
| | have been leading on this work and Health officials are already working closely together to explore a number of emerging opportunities which involve different funding partners and delivery mechanisms.<br><br>In terms of the consideration of NHS service plans, Betsi Cadwaladr University Health Board and Hywel Dda Health Board recently consulted on their proposals for future services in North Wales and Mid and West Wales respectively. They are now considering responses to the consultations before presenting their final proposals. South Wales commenced its three month engagement programme on 26 September and this will be followed by a formal consultation process next year. There are therefore no firm or final capital proposals at this stage. There needs to be timely and regular evaluations of LHB capital requirements and officials are in regular dialogue with NHS organisations to identify and manage investment opportunities as they emerge to ensure that we continue to identify, fund and deliver the priority schemes. |
| **R3**<br>In recent years, the proportion of NHS bodies' funding that has been allocated during the financial year, instead of at the outset, has risen substantially. Whilst there are valid reasons for this, **the Welsh Government should ensure that NHS bodies are provided with as much detail as possible on funding before the start of a financial year to facilitate effective financial planning.** | Health Boards receive their initial allocation notification in the December prior to the start of the financial year. Any funding allocated after this point, including funding notified before the start of the financial year, is considered as an in-year adjustment. In practice, most regular funding that is not included in the initial allocation will be issued early in the financial year, and health boards will have been notified of the intended levels of funding before the formal allocation is made. A significant proportion of the funding allocated to Health Boards during the financial year is also for non-recurrent and exceptional items of expenditure, for example to |

| | |
|---|---|
| | cover accounting costs for impairments and accelerated depreciation. The Welsh Government has reviewed the budgets it holds centrally and is planning to incorporate a number of these funding streams into Health Board's core revenue allocations in future years. |
| **R4**<br>The Welsh Government has improved the monitoring information it gathers on NHS bodies' financial positions throughout the year. This improved information has helped the Welsh Government to take more timely decisions on funding pressures in the year. There are, however, some areas where the monitoring system could be strengthened further to provide a more accurate picture of the likely end-of-year<br>position. **The Welsh Government should work with NHS bodies to:**<br>**• ensure that the information on expected end-of-year out-turn is consistent across NHS bodies, in particular that they strike a similar balance between optimism regarding breakeven and a realistic assessment of the challenge; and**<br>**• ensure that, where possible, NHS bodies profile expected savings from central budgets and accountancy gains across the year in their monitoring returns to give a more realistic picture in-year.** | We have a systematic process of working with NHS organisations to ensure a consistent approach in the calculation of their out-turn position. This is done through a working group comprising Welsh Government officials and NHS finance staff.<br><br>Currently organisations who report that accountancy gains have been identified are notified that these must be phased into the monthly profile. This is being actioned. Organisations who assess potential accountancy gains are unable to include these until later in the year when they are confident that they have materialised. |
| **R5**<br>There are several different official assessments of the cost pressures that the NHS faces between now and 2014-15, with differences between them. **To support better financial planning, and clarify the scale of the challenge the NHS faces and the savings that are required, the Welsh** | As part of developing Integrated Medium Term Plans, the Welsh Government is supporting joint work with NHS professionals to develop clearer resource planning assumptions for inclusion in modelling individual plans. This will effectively update the challenge the NHS faces, based on assessment of future pressures as well as the underlying |

| | |
|---|---|
| **Government should:**<br>**• update the assessment of the cost pressures on the NHS, which are currently set out in the Five Year Framework; and**<br>**• consider this updated assessment against other measures of cost pressures from elsewhere in the UK public sector.** | position moving from 2012/13 into 2013/14. This will include evidence and validation against other measures. |
| **R6**<br>The resource accounting regime of the NHS has a short-term focus on breaking even within each financial year. This potentially makes it difficult for NHS bodies to create funds to invest in transformation and change in order to deliver savings in future years. **Within the current framework of resource accounting, the Welsh Government should assess the current requirement for health boards to break-even each and every year, and develop options that would enable NHS bodies to invest in new ways of working where these are likely to deliver savings in the future and enable them to break-even over a longer period.** | The current legislative regime within which NHS organisations currently operate imposes certain financial duties, which includes a requirement for health boards to break even each and every year. This constrains the ability of health boards to plan and manage their finances over the medium term. Therefore work has been instigated to explore opportunities that may be available by making changes to primary legislation that governs the financial operating environment within which health board’s function. The options also take account of the annual budgetary constraints which apply to the Welsh Government's health budget.<br><br>Changes to primary legislation are longer term solutions and consequently other options are being considered which will provide additional flexibility within the current legislative framework. These include arrangements to support; planned financial flexibility, to allow the management of resources across financial years over the medium term, by providing access to a dedicated fund, as part of a three year planning horizon and also shorter term flexibility arrangements, to address unforeseen circumstances and short term challenges that may occur during the year. |

| | |
|---|---|
| | Further information will be provided as part of the publication on the work of the 'new finance regime' as announced in the Departments NHS plan 'Together for Health' launched by the Minister in October 2011. |

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320502
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Ebost: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Dyddiad: 20 Tachwedd 2012
Ein cyf: HVT/1762/fgb
Tudalen: 1 o 2

Mr Darren Millar AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1NA

Dear Darren

Wedi ei atodi mae copi o'm adroddiad *Cyllid Iechyd: Diweddariad*. Mae'r adroddiad yn diweddaru rhai o'r ffigurau o'm hadroddiad ym mis Gorffennaf 2012, *Cyllid Iechyd*. Dangosodd adroddiad mis Gorffennaf fod y GIG yng Nghymru yn wynebu heriau mawr, â bwlch ariannol sydd yn tyfu ynghyd â setliad ariannol anoddach na rhannau eraill y DU. Mae'r diweddariad yn nodi safle ariannol cyrff y GIG yn chwe mis y flwyddyn ariannol bresennol. Mae hyn wedi ei seilio'n gyfan gwbl ar y data a gafodd ei adrodd gan gyrff y GIG i Lywodraeth Cymru, gan osod y safle ariannol bresennol, y safle diwedd flwyddyn posib a chynnydd o ran cynlluniau arbed. Mae yna rai pwyntiau pwysig sydd angen eu dwyn at sylw'r Pwyllgor.

Yn gyffredinol, mae'r GIG mewn sefyllfa ariannol well na'r un amser llynedd. Fodd bynnag, mae hynny'n bennaf oherwydd arian ychwanegol rheolaidd gan Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2011. Bwriad Llywodraeth Cymru oedd y byddai'r ariannu rheolaidd yn gymorth i ddiweddu patrwm cyrff y GIG o or-wario, ynghyd â'r rheidrwydd ar Lywodraeth Cymru i darparu arian ychwanegol iddyn nhw yn ystod y flwyddyn er mwyn iddynt fantoli'r cyfrifon. Mae hi'n ymddangos yn debygol iawn nad yw'r patrwm hyn wedi dod i ben. Mae'n annhebygol y bydd y rhan fwyaf o'r Byrddau Iechyd yn cwrdd â'u costau o fewn ffiniau eu cyllidebau presennol. Bydd y Pwyllgor yn sicr o fod yn ymwybodol i'r Gweinidog dros Iechyd gomisiynu adolygiad canol-blwyddyn o sefyllfa ariannol a pherfformiad nad yw'n ariannol cyrff y GIG, sydd bron a'i orffen yn ôl fy nealltwriaeth i.

Mae'r Cyrff Iechyd yn gwneud peth cynnydd â'u cynlluniau o ran arbedion, ond mae hi'n glir nad yw hyn yn ddigonol. Yn dilyn dwy flynedd sydd wedi bod â chanolbwynt trwm ar arbedion, mae hi'n anodd dod o hyd i'r arbedion a'r meysydd y gellir arbed ynddyn nhw. Mae'r Byrddau Iechyd wedi meddu ar ddulliau gwahanol o fynd i'r afael â'u cynlluniau: mae gan rai gynlluniau er mwyn pontio'u bylchau ariannu'n llwyr, tra bod eraill ond wedi gallu datblygu cynlluniau i bontio'r bylchau arian yn rhannol. Fodd bynnag, nid oes yr un Bwrdd Iechyd wedi cyflawni'r arbedion a fwriadwyd erbyn y chweched mis. Mae arbedion i'r gweithlu – y maes mwyaf ar gyfer arbedion sydd wedi eu cynllunio – yn ymddangos yn arbennig o anodd i'w cyflawni. Mae'r rhan fwyaf o Fyrddau Iechyd wedi bwriadu lleihau niferoedd y staff, ond ar y cyfan, mae nifer y staff wedi cynyddu ychydig.

Llinell uniongyrchol: 029 2032 0510 E-bost: huw.vaughan.thomas@wao.gov.uk




100% recycled paper
100% o bapur a ailgylchwyd

Mae pob Bwrdd Iechyd wedi adnabod fod yna berygl na fydd yr holl arbedion sydd eu hangen arnyn nhw yn cael eu cyflawni erbyn diwedd y flwyddyn.

Oherwydd fod y Pwyllgor yn bwriadau cymryd tystiolaeth gan Brif Weithredwyr Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, meddyliais y byddai hi o gymorth i wneud sylw ar yr heriau penodol sydd yn eu hwynebu. Mae'r ffigurau yn yr adroddiad yn codi rhai cwestiynau penodol ar gyfer y ddau sefydliad. Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro oedd yr unig Fwrdd Iechyd â diffyg uwch ar ddiwedd mis Medi 2012 na'r flwyddyn flaenorol. Dim ond o drwch blewyn y mae sefyllfa Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn well eleni na'r un cyfnod llynedd. Mae'r ddau sefydliad ar ei hôl hi yn sylweddol o ran eu cynlluniau cychwynnol ar gyfer arbed arian. Mae'r ddau Fwrdd Iechyd yn rhagweld diffygion diwedd y flwyddyn "tebygol" o £20 miliwn, sydd yn debyg i'w gilydd ac yn sylweddol (mewn perthynas â Byrddau Iechyd eraill).

Ar y cyfan, â diffyg o £69 miliwn ym mis chwech, mae'r diweddariad yn dangos fod cyrff y GIG yn wynebu her fawr yn ystod y chwe mis nesaf er mwyn rheoli eu gor-wario. Mae cyllidebau Llywodraeth Cymru, sydd yn cynnwys y gyllideb ddrafft ddiweddaraf, yn dangos y bydd pwysau ariannol yn parhau hyd y gellir rhagweld. Fel sydd wedi ei ddweud gennym mewn nifer o adroddiadau blaenorol, mae'r pwysau ariannol hyn yn dangos fod angen cynlluniau arbed realistig yn y tymor-byr, yn cynnwys rhai penderfyniadau anodd o ran arbedion ar gostau'r gweithlu; a thrawsnewidiadau brys i fodelau gofal a darpariaeth newydd sydd yn gynaliadwy ac yn darparu gwasanaethau gwell i gleifion.



**HUW VAUGHAN THOMAS**
**ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU**

*Amg*

# Cyllid Iechyd: Diweddariad

## Cyflwyniad

Ym mis Gorffennaf 2012, gwnaethom gyhoeddi ein hadroddiad Cyllid Iechyd. Nododd yr adroddiad hwnnw'r patrwm gwario a rheoli ariannol hanesyddol yn y GIG. Archwiliodd sut yr oedd y GIG wedi mantoli'r gyllideb yn 2011-12 ac ystyriodd yr heriau mawr sy'n wynebu'r GIG yn y dyfodol. Yn sgil cyhoeddi ein hadroddiad, penderfynodd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru lansio ei ymchwiliad ei hun a chymryd tystiolaeth ar sail ein hadroddiad.

Gyda'r heriau ariannol sydd ar fin digwydd a'r heriau ariannol digynsail sy'n wynebu'r GIG, aethom ati i roi diweddariad i'r pwyllgor ar sefyllfa ariannol bresennol cyrff y GIG yng Nghymru. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi diweddariad ffeithiol ar ganol 2012-13, heb werthuso na dadansoddi'n fanwl. Mae'n seiliedig ar y wybodaeth fonitro fisol y mae cyrff y GIG yn ei rhoi i Lywodraeth Cymru. Yn benodol, mae'n nodi:

- y sefyllfa ariannol bresennol ar 30 Medi 2012 (mis 6);
- rhagolygon o'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ar 31 Mawrth 2013;
- cynnydd o ran cynlluniau arbedion 2012-13.

Mae'r diweddariad hwn yn dangos bod cyrff y GIG wedi cael trafferth i reoli o fewn terfynau eu hadnoddau presennol yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn. Mae'n debygol y bydd diffyg sylweddol erbyn diwedd y flwyddyn. Mae cyrff y GIG yn gwneud cynnydd o ran eu cynlluniau arbedion, ond yn amlwg nid yw hyn yn ddigonol. Awgryma achosion o orwario mewn meysydd allweddol fel cyflogau a meddyginiaethau fod cyrff y GIG yn cael trafferth rheoli pwysau o ran costau.

Dengys cyllidebau Llywodraeth Cymru, yn cynnwys y gyllideb ddrafft ddiweddaraf, na fydd cyllidebau iechyd yn cynyddu i gyfateb i bwysau o ran costau a galw yn y dyfodol agos. Fel y nodwyd gennym mewn adroddiadau blaenorol, mae'r pwysau ariannol hyn yn pwysleisio bod angen:

- cynlluniau arbedion byrdymor realistig, yn cynnwys rhai dewisiadau anodd yn ymwneud ag arbedion ar gostau'r gweithlu;
- trawsnewid modelau newydd o ofal a chyflenwi sy'n gynaliadwy ac sy'n darparu gwasanaethau o ansawdd gwell i gleifion, a hynny ar fyrder.

## Sefyllfa ariannol bresennol

Ffigur 1: Gyda diffyg cyfunol o £69 miliwn ym mis 6, mae'r rhan fwyaf o gyrff y GIG mewn sefyllfa well nag yr oeddent ar yr un adeg yn 2011-12 yn sgil arian cylchol ychwanegol a ddyrannwyd ym mis Hydref 2011. Fodd bynnag, mae gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ddiffyg mwy nag ar yr un adeg y llynedd a dim ond fymryn yn well y mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

| Corff y GIG | Sefyllfa ar ddiwedd Medi 2012 (£ miliwn) | Sefyllfa ar ddiwedd Medi 2011 (£ miliwn) |
|---|---|---|
| Abertawe Bro Morgannwg | -9.7 | -15.8 |
| Aneurin Bevan | -5.8 | -15.9 |
| Betsi Cadwaladr | -14.8 | -15.4 |
| Caerdydd a'r Fro | -17.6 | -16.7 |
| Cwm Taf | -6.9 | -15.8 |
| Hywel Dda | -7.8 | -20.5 |
| Powys | -5.1 | -10.3 |
| Iechyd Cyhoeddus Cymru | 0.0 | 0.1 |
| Felindre | 0.0 | 0.1 |
| Ambiwlans Cymru | -0.3 | -0.7 |
| **GIG Cymru** | **-69.1** | **-110.8** |

*Ffynhonnell: Ffurflenni monitro Llywodraeth Cymru*

*Noder: Ym mis Hydref 2011, rhoddodd Llywodraeth Cymru £133 miliwn ychwanegol i gyrff y GIG ar gyfer blwyddyn ariannol 2011-12, yr oedd £103 miliwn ohono yn gylchol gyda rhagor o arian trosiannol ar gyfer Hywel Dda dros dair blwyddyn (£30 miliwn yn 2011-12, £20 miliwn yn 2012-13).*

## Rhagolygon o'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn

Mae'r rhagolygon o'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn yn 2012-13 yn ansicr yn y bôn. Yn yr adroddiad hwn, rydym wedi defnyddio tri gwahanol ragolwg:

- rhagolygon cyrff y GIG eu hunain;
- dadansoddiad o dueddiadau Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar gynnydd hyd yma;
- ein dadansoddiad ein hunain yn seiliedig ar y duedd yn 2011-12.


Ar y cyfan, mae'r dadansoddiadau hyn yn dangos bod **cyrff y GIG eu hunain yn rhagweld diffyg diwedd blwyddyn o tua £70 miliwn ond gallai fod yn uwch o lawer**.

Ffigur 2: Ar gyfer 2012-13, mae cyrff y GIG yn rhagweld diffyg posibl mwyaf tebygol o £70 miliwn, er y gallai fod rhwng £46 miliwn a £131 miliwn

| Corff y GIG | Sefyllfa ragweledig ar ddiwedd y flwyddyn | | |
|---|---|---|---|
| | Sefyllfa waethaf (£ miliwn) | Sefyllfa fwyaf tebygol (£ miliwn) | Sefyllfa orau (£ miliwn) |
| Abertawe Bro Morgannwg | -21.0 | -13.5 | 0.0 |
| Aneurin Bevan | -11.0 | 0 | 0 |
| Betsi Cadwaladr | -19.0 | -19.0 | -19.0 |
| Caerdydd a'r Fro | -32.2 | -20.0 | -20.0 |
| Cwm Taf | -13.1 | -10.0 | -7.7 |
| Hywel Dda | -12.8 | -3.1 | -3.1 |
| Powys | -9.0 | -4.0 | -1.6 |
| Iechyd Cyhoeddus Cymru | -1.6 | 0.0 | 0.0 |
| Felindre | -4.4 | 0.0 | 0.0 |
| Ambiwlans Cymru | -7.6 | 0 | +5.3 |
| **GIG Cymru** | **-131.4** | **-69.6** | **-46.1** |


*Ffynhonnell: Ffurflenni monitro Llywodraeth Cymru*

Ffigur 3: Mae cyrff y GIG wedi gorwario tua £10 miliwn y mis, ar gyfartaledd, ond mae'r gyfradd orwario wedi gostwng ac mae byrddau iechyd eu hunain yn disgwyl tanwario yn ystod y chwarter olaf er mwyn sicrhau'r diffyg rhagweledig o £70 miliwn




*Ffynhonnell: Ffurflenni monitro Llywodraeth Cymru*

Ffigur 4: Wrth ragweld y lefel hon o ddiffyg, mae cyrff y GIG yn cynllunio ar sail llai o wariant yn ystod chwe mis olaf 2012-13 nag yn ystod chwe mis olaf y flwyddyn flaenorol





*Ffynhonnell: Ffurflenni monitro Llywodraeth Cymru*

Ffigur 5: Awgryma dadansoddiad Llywodraeth Cymru o dueddiadau presennol y gallai'r diffyg diwedd blwyddyn fod yn uwch na'r rhagolwg mwyaf tebygol gan gyrff y GIG

| Corff y GIG | Sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn pe bai'r cyfartaledd misol yn parhau tan ddiwedd y flwyddyn (£ miliwn) | Sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn pe bai'r sefyllfa ym mis Medi yn parhau tan ddiwedd y flwyddyn (£ miliwn) |
|---|---|---|
| Abertawe Bro Morgannwg | -19.5 | -16.3 |
| Aneurin Bevan | -11.6 | -7.6 |
| Betsi Cadwaladr | -29.6 | -17.2 |
| Caerdydd a'r Fro | -35.3 | -31.1 |
| Cwm Taf | -13.9 | -12.9 |
| Hywel Dda | -15.6 | -16.1 |
| Powys | -10.4 | -8.3 |
| Iechyd Cyhoeddus Cymru | 0 | -0.1 |
| Felindre | 0.1 | -0.1 |
| Ambiwlans Cymru | -2.6 | -3.3 |
| **GIG Cymru** | **-138.3** | **-112.9** |

*Ffynhonnell: Ffurflenni monitro Llywodraeth Cymru*

Ffigur 6: Mae'r dadansoddiad o dueddiadau fwy na thebyg yn gorddatgan y sefyllfa debygol ar ddiwedd y flwyddyn gan fod cyrff y GIG yn hanesyddol wedi tueddu i ostwng eu cyfradd orwario yn ystod ail hanner y flwyddyn: cynyddodd y diffyg y llynedd 42 y cant y llynedd yn ystod y chwe mis olaf. Pe bai'r duedd honno yn cael ei hailadrodd yn 2012-13, byddai'r diffyg diwedd blwyddyn oddeutu £100 miliwn.





*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru*

*Noder: Yn 2011-12, nid oedd diffyg ffurfiol gan fod Llywodraeth Cymru wedi darparu £133 miliwn o arian ychwanegol a £24 miliwn o froceriaeth. Er mwyn cymharu, rydym wedi trin y cyfanswm hwn o £157 miliwn fel y diffyg a fyddai wedi digwydd heb y cymorth ychwanegol.*

## Cynnydd o ran cynlluniau arbedion


Ffigur 7: Erbyn diwedd Medi 2012, roedd cyrff y GIG wedi nodi arbedion gwirioneddol o £69 miliwn yn erbyn arbedion arfaethedig o £118 miliwn, gyda pherfformiad yn amrywio'n sylweddol rhwng cyrff y GIG




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ffurflenni monitro Llywodraeth Cymru*

*Noder: Ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, rydym wedi nodi'r cynnydd a wnaed yn erbyn ei gynllun arbedion gwreiddiol, nid yr un cyfredol. Ym mis Medi diweddarodd ei gynlluniau, a symudodd tua £14 miliwn o arbedion arfaethedig o hanner cyntaf y flwyddyn i'r ail hanner.*

Ffigur 8: Mae cyrff y GIG yn bwriadu gwneud cynnydd o ran eu harbedion yn ystod ail hanner y flwyddyn ariannol




*Ffynhonnell: Ffurflenni monitro Llywodraeth Cymru*

*Noder: Mae ffigur mis Medi wedi'i ystumio gan fod Betsi Cadwaladr wedi diwygio ei gynllun arbedion, a arweiniodd at leihau'r ffigur cyffredinol ar gyfer arbedion arfaethedig ar draws pob corff y GIG £12.6 miliwn, o £23.2 miliwn i £10.6 miliwn. Gan addasu ar gyfer Betsi Cadwaladr, roedd cyrff y GIG mewn gwirionedd £8.4 miliwn yn brin o'u targed arbedion ym mis Medi.*

Ffigur 9: Nid yw rhai o gynlluniau arbedion cyrff y GIG yn pontio'r bwlch ac mae'r rheini sydd â chynlluniau arbedion llawn hefyd yn cydnabod bod risg sylweddol o beidio â chyflawni

| Sefydliad | Arbedion blynyddol gofynnol £000oedd | Arbedion blynyddol rhagweledig £000oedd | Amrywiant £000oedd | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| Abertawe Bro Morgannwg | 45,100 | 25,951 | -19,149 | Cyfateb i £13.500 miliwn o ddiffyg rhagweledig, £8.060 miliwn o ddiffyg agoriadol a orddatganwyd, £1.500 miliwn o arian ar gyfer gofal heb ei drefnu llai pwysau cost ychwanegol o £3.911 miliwn. |
| Aneurin Bevan | 48,000 | 48,000 | -0 | |
| Betsi Cadwaladr | 64,664 | 64,664 | 0 | |
| Caerdydd a'r Fro | 66,886 | 46,886 | -20,000 | Cyfateb i ddiffyg rhagweledig. |
| Cwm Taf | 18,800 | 8,800 | -10,000 | Cyfateb i ddiffyg rhagweledig. |
| Hywel Dda | 41,630 | 27,592 | -14,038 | Cyfateb i £3.110 miliwn o ddiffyg rhagweledig, £7.440 miliwn o arbedion cyfrifyddu, £4.248 miliwn o incwm rhagweledig nad yw yn y cynllun, llai pwysau cost ychwanegol o £0.760 miliwn. |
| Powys | 18,852 | 14,853 | -3,999 | Cyfateb i ddiffyg rhagweledig. |
| Iechyd Cyhoeddus Cymru | 2,317 | 2,317 | -0 | |
| Felindre | 3,055 | 3,055 | 0 | |
| Ambiwlans Cymru | 7,972 | 7,972 | 0 | |
| **Cyfanswm Cymru** | **317,276** | **250,090** | **-67,186** | |

*Ffynhonnell: Ffurflenni monitro Llywodraeth Cymru*

*Nodiadau:*

- *noda Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro nad oedd £13.7 miliwn o 'arbedion a nodwyd' wedi'u nodi eto mewn gwirionedd ym mis Medi;*
- *noda Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan fod risg fawr na fydd yn cyflawni £9 miliwn o'i arbedion;*
- *mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi nodi'r risg na fydd yn cyflawni £19 miliwn o'i arbedion (sy'n cyfateb i'w ddiffyg rhagweledig);*
- *mae Bwrdd Iechyd Cwm Taf wedi nodi arbedion posibl hyd at y £18.8 miliwn yn llawn ond mae wedi penderfynu bod £10 miliwn yn ormod o risg i weithredu hyn.*

Ffigur 10: Mae cyrff y GIG yn disgwyl gwneud arbedion sylweddol o ran y gweithlu, caffael a rheoli meddyginiaethau

| Categorïau arbedion | Cynllun blwyddyn lawn | | Rhagolwg blwyddyn lawn | | Yn cynnwys | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Cylchol | Anghylchol |
| | £000oedd | % oedran | £000oedd | % oedran | £000oedd | £000oedd |
| Moderneiddio'r gweithlu | 103,135 | 36.0% | 89,759 | 35.9% | 85,766 | 3,993 |
| Rheoli meddyginiaethau (gofal sylfaenol ac eilaidd) | 43,377 | 15.1% | 45,416 | 18.2% | 41,731 | 3,686 |
| Caffael a meysydd eraill nad ydynt yn gysylltiedig â chyflogau (ac eithrio ynni) | 65,020 | 22.7% | 43,006 | 17.2% | 25,446 | 17,560 |
| Cyngor Iechyd Cymuned (ac eithrio Oedi wrth Drosglwyddo Gofal) | 15,520 | 5.4% | 15,062 | 6.0% | 14,727 | 335 |
| Gwasanaethau a gomisiynir yn allanol | 30,915 | 10.8% | 29,563 | 11.8% | 26,966 | 2,598 |
| Gostyngiadau o ran costau rheoli | 4,526 | 1.6% | 4,397 | 1.8% | 4,397 | 0 |
| Ystadau/ynni | 2,558 | 0.9% | 1,917 | 0.8% | 1,678 | 240 |
| Gwasanaethau arbenigol | 21,620 | 7.5% | 20,969 | 8.4% | 20,969 | 0 |
| **Cyfanswm** | **286,670** | **100.0%** | **250,090** | **100.0%** | **221,679** | **28,412** |
| | | | | | **88.6%** | **11.4%** |

*Ffynhonnell: Ffurflenni monitro Llywodraeth Cymru*


*Noder: Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn cyfrif am £21 miliwn o'r £28 miliwn o arbedion arfaethedig anghylchol.*

Ffigur 11: Mae cyrff y GIG yn disgwyl i bron ddwy ran o dair o'r arbedion o ran y gweithlu a rheoli gael eu cyflawni drwy leihau nifer y staff yn y GIG

| Dadansoddiad o arbedion arfaethedig o ran y gweithlu a rheoli | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Corff y GIG** | **Lleihau nifer y staff yn y sefydliad (£ miliwn)** | **Cyflog amrywiol (£ miliwn)** | **Locwm / asiantaeth (£ miliwn)** | **Lleihau nifer y staff cronfa (£ miliwn)** | **Arall (£ miliwn)** |
| Abertawe Bro Morgannwg | 14.6 | 0.3 | 0.3 | 0.4 | 1.1 |
| Aneurin Bevan | 7.0 | 6.6 | 1.9 | 2.5 | 0.3 |
| Betsi Cadwaladr | 10.3 | 0.3 | 3.3 | 0.7 | 1.2 |
| Caerdydd a'r Fro | 5.3 | 0.7 | 0.2 | 0.9 | 2.4 |
| Cwm Taf | 6.0 | 0.0 | 0.1 | -0.5 | 0 |
| Hywel Dda | 9.3 | 1.3 | 5.3 | 0.0 | 0.0 |
| Powys | 1.9 | 0.0 | 0.0 | 0.1 | 0.0 |
| Iechyd Cyhoeddus Cymru | 1.4 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 |
| Felindre | 2.1 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 |
| Ambiwlans Cymru | 3.8 | 2.7 | 0.0 | 0.0 | 0.0 |
| **GIG Cymru** | **61.5** | **12.4** | **11.2** | **4.1** | **5.0** |
| **Fel % o gyfanswm arbedion y gweithlu** | **65.3%** | **13.1%** | **11.8%** | **4.4%** | **5.3%** |

*Ffynhonnell: Ffurflenni monitro Llywodraeth Cymru*


Ffigur 12: Yn gyffredinol, mae cyrff y GIG yn nodi mai dim ond £23.5 miliwn o'r £44 miliwn bwriadedig o arbedion o ran y gweithlu a gyflawnwyd ym mis 6, er bod rhai wedi perfformio'n well nag eraill




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ffurflenni monitro Llywodraeth Cymru*

*Noder: Ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, rydym wedi nodi'r cynnydd a wnaed yn erbyn ei gynllun arbedion gwreiddiol. Ym mis Medi diweddarodd ei gynlluniau, a symudodd tua £8 miliwn o arbedion arfaethedig y gweithlu i'r ail ran o'r flwyddyn.*

Ffigur 13: Erbyn diwedd Medi, roedd cyrff y GIG wedi gorwario tua £33 miliwn ar gyflogau, er bod cryn dipyn o amrywiad




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ffurflenni monitro Llywodraeth Cymru*

*Noder: Caiff gorwariant ei wrthbwyso'n rhannol yn erbyn llinellau cyllidebau unigol gan fod gan bob bwrdd iechyd ond un (Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro) gronfeydd wrth gefn heb eu dyrannu yn eu cyllidebau. Mae gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gronfa wrth gefn sylweddol fwy na byrddau iechyd eraill sef £19.2 miliwn tan fis Medi.*

Ffigur 14: Yn gyffredinol, mae cyrff y GIG yn disgwyl colli tua £1,600 aelod o staff (dau y cant o gyfanswm y gweithlu) yn ystod ail hanner y flwyddyn, ond nid yw'r byrddau iechyd hynny sy'n cynllunio'r gostyngiadau mwyaf wedi gwneud fawr ddim cynnydd hyd yma.

| Corff y GIG | Proses arfaethedig o symud staff cyflogedig rhwng mis Mehefin a diwedd y flwyddyn | Proses wirioneddol o symud staff cyflogedig rhwng mis Mehefin a mis Medi | Gwaith symud staff cyflogedig yn ofynnol o hyd yn ystod y chwe mis olaf |
|---|---|---|---|
| Abertawe Bro Morgannwg | -120 | -206 | Rhagorwyd ar y cynllun eisoes |
| Aneurin Bevan | -408 | +41 | -449 |
| Betsi Cadwaladr | -230 | +111 | -341 |
| Caerdydd a'r Fro[1] | +156 | +35 | +121 |
| Cwm Taf | -135 | -10 | -125 |
| Hywel Dda | -587 | +5 | -592 |
| Powys[2] | +2 | +14 | +12 |
| Iechyd Cyhoeddus Cymru | +2 | +2 | Cyflawnwyd y cynllun eisoes |
| Felindre | +3 | +3 | Cyflawnwyd y cynllun eisoes |
| Ambiwlans Cymru | -253 | +13 | -266 |
| **GIG Cymru** | **-1570** | **+9** | **-1579** |


*Ffynhonnell: Ffurflenni monitro Llywodraeth Cymru*

*Nodiadau:*

1 *Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn bwriadu cynyddu lefelau staff i adlewyrchu newidiadau arfaethedig i'r gwasanaeth. Mae Llywodraeth Cymru yn monitro hyn yn ofalus yn sgil cynnydd o ran cyflawni arbedion eraill.*

2 *Nid yw Powys wedi diweddaru i adlewyrchu ei niferoedd staffio i adlewyrchu gostyngiadau staffio arfaethedig yn sgil arbedion o ran y gweithlu.*


Ffigur 15: Erbyn mis 6, roedd y byrddau iechyd ar y cyd £1.9 miliwn (13.6 y cant) yn brin o'u harbedion targed o £13.8 miliwn o ran rheoli meddyginiaethau




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ffurflenni monitro Llywodraeth Cymru*

*Noder: Ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, rydym wedi nodi'r cynnydd a wnaed yn erbyn ei gynllun arbedion gwreiddiol.*


Ffigur 16: Er eu bod yn rhesymol agos at eu targedau arbedion, roedd byrddau iechyd ar y cyd wedi gorwario £14 miliwn ar feddyginiaethau, gydag amrywiad sylweddol rhwng byrddau iechyd




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ffurflenni monitro Llywodraeth Cymru*

*Noder: Caiff gorwariant ei wrthbwyso'n rhannol yn erbyn llinellau cyllidebau unigol gan fod gan bob bwrdd iechyd ond un (Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro) gronfeydd wrth gefn heb eu dyrannu yn eu cyllidebau. Mae gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gronfa wrth gefn sylweddol fwy na byrddau iechyd eraill sef £19.2 miliwn tan fis Medi.*

Ffigur 17: Nododd cyrff y GIG £13 miliwn o arbedion ar gaffael a meysydd eraill nad ydynt yn ymwneud â chyflogau yn erbyn targed o £31.2 miliwn: mae'r darlun cyffredinol wedi'i ystumio oherwydd bod Caerdydd a'r Fro gryn dipyn ar ei hôl hi o ran ei gynlluniau ar gyfer arbedion mawr yn y maes hwn




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ffurflenni monitro Llywodraeth Cymru*

# DRAFT MINUTES

| Meeting ID | 1104 |
|---|---|
| Committee | Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus |
| Date | 19/11/2012 |
| Attendees | Darren Millar (Cadeirydd) |
| | Mohammad Asghar (Oscar) AC (Aelod) |
| | Mike Hedges (Aelod) |
| | Julie Morgan (Aelod) |
| | Gwyn R Price (Aelod) |
| | Jenny Rathbone (Aelod) |
| | Aled Roberts (Aelod) |
| | Jocelyn Davies (Aelod) |
| | Tom Jackson (Clerc) |
| | Daniel Collier (Dirprwy Glerc) |
| | Sarah Beasley (Clerc) |
| | Sarah Sargent (Dirprwy Glerc) |
| | Joanest Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol) |
| | Linda Heard (Monitor) |
| | Ian Summers (Monitor) |
| | AMSS Darren Millar (Monitor) |
| | AMSS Mohammad Asghar (Monitor) |
| | AMSS Gwyn Price (Monitor) |
| | AMSS Mike Hedges (Monitor) |
| | AMSS Julie Morgan (Monitor) |
| | AMSS Jenny Rathbone (Monitor) |
| | AMSS Aled Roberts (Monitor) |
| | AMSS Jocelyn Davies (Monitor) |
| | Central Admin (Monitor) |
| | TRS Admin group (Monitor) |
| | David Richards (Tyst) |
| | Arwel Thomas (Tyst) |
| | Karen Sinclair (Tyst) |
| | Ieuan Wyn Jones (Tyst) |
| | Andrew Davies (Tyst) |

| Item ID | 8328 |
|---|---|
| Item Title | Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon |
| Summary | 1.1 The Chair sent his apologies for the beginning of the meeting. The Clerk requested nominations for a temporary Committee Chair under Standing Order 17.22. Jenny Rathbone nominated Jocelyn Davies, who was duly appointed until the arrival of the Chair. |

| | |
|---|---|
| | 1.2 The temporary Chair welcomed Members and members of the public to the meeting.<br><br>1.3 Apologies had been received from Julie Morgan who had declared an interest in the Welsh Government's acquisition and action to dispose of the former River Lodge Hotel as her husband was First Minister during this period. |

| Item ID | 8362 |
|---|---|
| Item Title | Proses gaffael Llywodraeth Cymru a'r camau a gymerwyd ganddi i waredu hen westy River Lodge, Llangollen |
| Summary | **Welsh Government**<br><br>2.1 The temporary Chair welcomed David Richards, Director of Governance; and Arwel Thomas, Deputy Director, Corporate Governance and Assurance Division.<br><br>2.2 The Committee scrutinised the witnesses.<br><br>**Action points:**<br><br>The Welsh Government was asked to provide:<br><br>• Further information on the Welsh Government's register of declarations of interest, including which declarations would be considered as potential risks;<br><br>**Karen Sinclair (via Video Conference)**<br><br>2.3 The Chair welcomed Karen Sinclair, former Assembly Member.<br><br>2.4 The Committee questioned the witness.<br><br>**Ieuan Wyn Jones AM**<br><br>2.5 The Chair welcomed Ieuan Wyn Jones AM, former Minister for Economy and Transport<br><br>2.6 The Committee questioned the witness.<br><br>**Andrew Davies**<br><br>2.7 The Chair welcomed Andrew Davies, former Minister for Enterprise, Innovation and Networks.<br><br>2.8 The Committee questioned the witness. |

| | |
|---|---|
| | |

| | |
|---|---|
| Item ID | 8329 |
| Item Title | Papurau i'w nodi |
| Summary | 3.1 The Committee noted the minutes of the previous meeting. |

| | |
|---|---|
| Item ID | 8365 |
| Item Title | Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol: |
| Summary | Items 5 and 6. |

| | |
|---|---|
| Item ID | 8363 |
| Item Title | Ystyried y dystiolaeth ar broses gaffael Llywodraeth Cymru a’r camau a gymerwyd ganddi i waredu hen westy River Lodge, Llangollen |
| Summary | 5.1 The Committee discussed the evidence received on the Welsh Government’s acquisition and action to dispose of the former River Lodge Hotel, Llangollen. |

| | |
|---|---|
| Item ID | 8364 |
| Item Title | Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru): Cyfnod 1 - Ystyried yr adroddiad drafft |
| Summary | 6.1 The Committee considered its draft report on the Public Audit (Wales) Bill. |